COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 2/3 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 15 MEDI 2017, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd RE Young – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| G Cox | G John | AA Pucella | JC Spanswick |
| R Turner | E Venables | JE Williams | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Edwards, G Hopkins a/ac DBF White

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Adele Ahearn | Cyfrifydd |
| Philip Beaman | Rheolwr Man Gwyrdd a Gwasanaethau Profedigaeth |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |

10. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

11. DATGANIADAU O FUDDIANT

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo dyddiedig 30 Mehefin 2017 fel cofnod gwir a chywir.

12. GWOBR Y FANER WERDD

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd adroddiad, a phwrpas hwn oedd cynghori'r Cyd-bwyllgor ynghylch cais llwyddiannus Amlosgfa Llangrallo am Wobr y Faner Werdd yn 2017.

Tynnodd yr adroddiad sylw at y ffaith fod yr Amlosgfa unwaith eto wedi llwyddo i sicrhau'r wobr hon a gydnabyddir yn genedlaethol am y safonau gofal ac am gynnal a chadw'r safle a'r tiroedd. Mae'r wobr yn cadarnhau'r ymrwymiad i gynnal safonau uchel, y gellir ei werthfawrogi gan yr holl ymwelwyr.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd mai Llangrallo oedd un o ddim ond tri safle amlosgfa yng Nghymru sydd wedi ennill Gwobr y Faner Werdd, ac roedd wedi derbyn y wobr hon yn awr am yr wythfed flwyddyn yn olynol.

Mae'n rhaid gwneud cais blynyddol am y Wobr a bydd cyflwyniad pellach yn cael ei wneud ym mis Ionawr 2018.

Yn olaf, cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd mai cost gwneud cais am y wobr oedd £350, a byddai’r arian hwn yn cael ei dalu o'r Gyllideb Refeniw.

Diolchodd y Cadeirydd a'r Aelodau i'r Swyddog a'i staff am ennill y Wobr hon unwaith eto.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyd-bwyllgor yn nodi llwyddiant yr Amlosgfa wrth sicrhau Gwobr y Faner Werdd am 2017.

13. GWASANAETH NADOLIG

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Technegol adroddiad, a oedd yn hysbysu'r Cydbwyllgor am y trefniadau ar gyfer Gwasanaeth Nadolig 2017.

Amlinellwyd y manylion am hyn ym mharagraff 4.1 yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd y bydd gwahoddiadau yn cael eu hanfon at Feiri Cynghorau Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf, Aelodau'r Cydbwyllgor a Chynghorwyr lleol, gan gynnwys Cynghorwyr Tref / Cymuned.

Ychwanegodd y byddai'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu fel y bo'n briodol, gan gynnwys ar wefan y Cyngor.

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd ymhellach, y byddai arian y casgliad ariannol a dderbynnir ar y noson yn cael ei roi i Gronfa Elusen y Maer Cadeirydd y Cydbwyllgor fel arfer.

O ran goblygiadau ariannol yr adroddiad, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd wrth yr Aelodau y byddai'r Co-operative Funeral Group yn rhoi cyfraniad at y lluniaeth ar gyfer y digwyddiad. Cyfrifwyd am gost staff a pherfformwyr, a amcangyfrifwyd yn £450, o fewn cyllideb refeniw'r Amlosgfa.

PENDERFYNWYD: Bod y Cydbwyllgor yn nodi'r adroddiad.

14. DATGANIAD MONITRO REFENIW 1 EBRILL I 30 MEHEFIN 2017

Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad, a'i bwrpas oedd hysbysu'r Cydbwyllgor am fanylion incwm a gwariant ar gyfer chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2017-18, a rhoi rhagamcan o'r alldro terfynol,

Dywedodd y Cyfrifydd - System Ffurflenni fod mân newidiadau i'r gyllideb am y flwyddyn, oherwydd recriwtio staff diogelwch i weithio yn lle aelod staff oedd ar absenoldeb salwch tymor hir. Adlewyrchwyd hyn yn y gwahaniaeth rhwng adran cyllideb y gweithwyr a'r gyllideb ar gyfer adeiladau yn yr adroddiad.

Ychwanegodd ymhellach y bu cynnydd yn Ardrethi Busnes y gyllideb adeiladau.

Mae’r gorwariant alldro rhagamcanol ar gyfer y Safle sef £11k yn cynnwys gorwariant o ran Ardrethi Busnes o £18k o ganlyniad i ailbrisio Gwerth Trethiannol.

Hysbysodd y Cyfrifydd - System Ffurflenni'r Aelodau hefyd fod mân danwariannau o tua £6k wedi bod o ran costau atgyweirio a dillad.

Yna cadarnhaodd fod y costau Cyfalaf yn £429k gyda chostau Gwaith Cyfalaf fel y cytunwyd gan y Cydbwyllgor yn gyfanswm o £315k o'r swm hwn.

O ran Cyllideb Gwaith Cyfalaf 2017-18 fel y'i gwelir yn Nhabl 2 a gynhwysir ym mharagraff 4.2 yr adroddiad, roedd balans o £79k a fydd yn cael ei ddefnyddio i dalu balans y benthyciad sydd ar ôl, a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor yn flaenorol ar 3 Mawrth 2017.

O ran y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2016-17, dangoswyd hon yn Atodiad 1 yr adroddiad ac fe'i cyflwynwyd i Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd Mehefin 2017, gan ddangos gweddill o £347k am y flwyddyn, a balans cronedig o £1,082,000 i'w ddefnyddio yn yr Amlosgfa. Dangosodd Atodiad 2 yr adroddiad fod y Ffurflen wedi cael ei harchwilio ac nad oedd unrhyw newidiadau iddi.

Eglurodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a'r Cofrestrydd statws presennol Loj yr Amlosgfa, mewn ymateb i gwestiynau am hyn gan Aelodau.

PENDERFYNWYD: Bod y Cydbwyllgor yn nodi'r adroddiad.

15. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:25